Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Saron and Hendre

**Festri Capel Saron**
**Saron**
**Rhydaman**
**SA18 3LN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Saron and Hendre

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Saron and Hendre |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Gwenda Easton |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Catherine Bladon |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 8.45-2.45 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf yn dilyn ailgofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 19/11/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu asesiadau risg ymhellach i gynnwys gweithgareddau yn yr ardaloedd allanol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob un plentyn yn teimlo’n hapus iawn yn y lleoliad ac yn ymgartrefu’n dda yno. Maent yn cael croeso cynnes wrth gyrraedd. Mae’r ychydig iawn sy’n ansicr yn ymlacio’n gyflym wrth iddynt dderbyn cysur gan ymarferwyr. Mae bron bob un plentyn yn ymgolli mewn gweithgaredd yn syth ar ôl cyrraedd.

Mae gan blant lais cryf iawn yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Mae’r plant yn gyfarwydd â’r arferion dyddiol ac wrthi’n brysur yn ymgymryd â’r gweithgareddau sy’n cael eu cynnig iddynt. Maent yn gyfforddus yn gwybod nad oes pwysau arnynt i gymryd rhan os nad ydynt yn dymuno. Er enghraifft, yn ystod y sesiwn stori a chanu, dewisodd rhai fynd i chwarae yn hytrach nag eistedd ar y mat.

Mae bron bob un yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn dangos hoffter amlwg tuag at yr ymarferwyr gan fynd atynt yn hapus a chyfforddus i’w gwahodd i ymuno yn eu chwarae neu i ddarllen stori.

Mae bron pob plentyn yn ymddiddori'n frwd ac yn barhaus yn eu chwarae. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau diddorol a chyffrous iddynt ddewis o'u plith. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos dyfalbarhad yn eu chwarae a’u dysgu trwy ddefnyddio adnoddau sy’n eu diddori am gyfnodau priodol. Er enghraifft, mae’r plant yn mwynhau arbrofi â’r offer yn y twba dŵr neu chwarae rôl yn y gegin.

Mae’r rhan fwyaf o blant wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â’u cyfoedion. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu ac yn mynegi eu mwynhad yn gyson trwy wenu a chwerthin. Er enghraifft, maent yn hapus ac yn frwdfrydig wrth arbrofi â’r teiars ar y ramp tu fewn. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau

corfforol yn effeithiol wrth ddefnyddio’r ystod dda o offer a ddarperir ar eu cyfer. Maent yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau priodol wrth ddringo offer tu allan a chydbwyso ar y beiciau.

Gwneir defnydd da o gyfnodau cymdeithasol er mwyn symud y dysgu ymlaen. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn bwyta cinio gyda’r plant wrth y bwrdd gan drafod yn hamddenol gyda’r plant a modelu moesau, gan annog y plant i wneud hynny hefyd.

Mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau annibynnol yn dda iawn wrth ddyfalbarhau i geisio gwisgo’r wisg glaw ac esgidiau glaw. Yn ystod amser byrbryd, maent yn casglu llestri ac offer yn annibynnol, arllwys eu diod a thaenu menyn ar dost heb gymorth. Yn ogystal, mae bron bob un yn golchi a sychu eu dwylo a gosod y tywel papur yn y bin yn annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd arbennig o’u mannau cychwyn ac yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus ar draws pob maes dysgu. Mae bron bob plentyn yn gwrando a chyfathrebu’n dda wrth chwarae a rhyngweithio ag ymarferwyr a’u ffrindiau, ac yn dweud ‘diolch’ yn naturiol wrth chwarae. Maent yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch ac yn ymgolli yn eu chwarae, er enghraifft wrth wneud diod lemwn yn y twba dŵr gydag amrywiaeth o wrthrychau, gan gynnwys jwg, sgŵp a darnau o lemwn .

Mae bron bob plentyn yn mwynhau cyfleoedd buddiol i ddysgu am ddiwylliannau a chredoau eraill, drwy drafodaethau, straeon a gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn darllen amrywiaeth eang o storïau sydd yn cynnwys cymeriadau o ddiwylliannau gwahanol er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant yn effeithiol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau a’u trin â pharch. Maent yn mwynhau edrych arnynt gydag oedolyn ac yn annibynnol. Mae eu medrau cyn-ddarllen yn datblygu’n ardderchog; er enghraifft, mae plant yn dilyn print â bys wrth ddarllen stori ac yn pwyntio at y lluniau wrth adrodd stori wrth ffrind. Mae medrau llafar bron bob un yn datblygu’n effeithiol iawn ac maent yn meddu ar fedrau iaith datblygedig a geirfa eang. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth drafod pwy allai fod wrth y drws pan fydd y gloch yn canu. Maent yn ymateb yn hyderus iawn yn y Gymraeg ac yn frwd i ymuno wrth chwarae gemau iaith a chanu. Mae mwyafrif y plant yn mwynhau creu marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o offer marcio mawr a bach yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gymryd nodiadau wrth weithio yn y swyddfa neu wrth sialcio amrywiaeth o wrthrychau tu allan.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n dda iawn, gyda’r mwyafrif yn cyfri i ddeg yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio geiriau Cymraeg ar gyfer lliwiau a rhifau. Mae bron bob un yn adnabod siapiau cyfarwydd, er enghraifft trwy bwyntio at siapiau meddal mawr wrth greu llwybr llamu i osgoi’r ‘lafa’ ar y llawr. Maent yn arbrofi â siâp yn fedrus iawn wrth adeiladu darnau pren ac yn defnyddio geirfa fathemategol gywir i ddisgrifio safle wrth chwilio am esgidiau glaw a dillad cynnes i fynd tu allan i chwarae. Mae’r mwyafrif yn mwynhau ymuno ag ystod o ganeuon a rhigymau mathemategol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyfri am-yn-ôl o bump wrth ganu cân am Bum Crocodeil.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n bwrpasol. Maent yn defnyddio ystod o offer yn annibynnol i gyfoethogi’u chwarae a’u dysgu. Er enghraifft, mae plant yn chwarae rôl gyda chyfrifiaduron, cyfrifianellau a ffonau yn y swyddfa ac yn tynnu lluniau o’r amgylchedd gyda chamera digidol.

Mae bron bob un plentyn yn archwilio’r ardal awyr agored yn hyderus ac yn datblygu eu medrau corfforol modur mawr yn effeithiol iawn, er enghraifft wrth i blant ddringo’r ysgol a’r ffrâm ddringo neu wrth neidio oddi ar y paledi pren. Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau cydsymud yn fedrus gyda rheolaeth gynyddol, er enghraifft wrth reoli amrywiaeth o feiciau a’u cwrso’n llwyddiannus i lawr y llethr.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n effeithiol. Maent yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau doeth am beth i’w defnyddio wrth weithio’n greadigol. Yn y toes, maent yn rholio, tynnu, gwasgu ac ychwanegu defnyddiau naturiol, megis tywod, i newid gwead y toes wrth wneud bisgedi. Mae’r rhan fwyaf yn medru mynegi eu hunain yn dda iawn wrth chwarae rôl o fewn cyd-destun go iawn yn effeithiol. Maent yn cyd-chwarae’n ddychmygus, gan ymgolli’n llwyr am gyfnod o amser, wrth wisgo gwisg ffansi a chwarae rôl fel pêl-droedwyr a chefnogwyr mewn gêm pêl-droed.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae’r ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd agos a naturiol â’r plant ac yn siarad â nhw’n dyner a chlên, gan eu trin â gofal a pharch. Maent yn cyfathrebu’n effeithiol ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyson gan roi clod ar lafar, er enghraifft wrth i blentyn rannu adnoddau a chymryd tro wrth greu toes. Mae’r ymarferwyr yn cefnogi’r plant i ddewis a dethol gweithgareddau ac adnoddau eu hunain tu fewn a thu allan.

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn iawn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cadw cofrestrau presenoldeb cywir a llyfr ymwelwyr, ac yn cynnal ymarferion tân, sydd oll yn cyfrannu at sicrhau darpariaeth ddiogel i'r plant. Mae’r ymarferwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau trwyadl y lleoliad mewn perthynas â hylendid ac iechyd a diogelwch. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol a manwl ar gyfer damweiniau, pryderon a digwyddiadau.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gyda’r plant. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo yn annibynnol ar yr amseroedd priodol ac yn darparu byrbrydau iach a llaeth neu ddŵr i'w yfed. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleoedd cyson a buddiol iddynt ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach. O ganlyniad, maent yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn llwyddiannus ac yn darparu cyfleoedd cyson i blant ddatblygu agweddau anturus a medrus tuag at ddysgu. Mae’r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o gefndiroedd y plant ac yn darparu adnoddau a gweithgareddau cynhwysol ac effeithiol i gefnogi hyn. Er enghraifft, maent yn gosod rhifau, baneri a geirfa ieithoedd cartref y plant yn yr ardaloedd i’w cyfoethogi.

Mae gan ymarferwyr drefniadau effeithiol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr

yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau'r plant, eu hanghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn iddynt gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigolion, pan fo angen. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod ymarferwyr yn medru gweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol i ddarparu unrhyw gymorth ychwanegol, yn ôl yr angen. Rhennir gwybodaeth yn gyson â rhieni drwy sgyrsiau anffurfiol a chyfarfodydd tymhorol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth gyfredol am ddatblygiad eu plant yn effeithiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn meddu ar berthynas hyfryd â'r plant, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn iawn o anghenion bob plentyn. Maent yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cynnig profiadau gwerthfawr ac yn ymateb i anghenion plant yn hynod lwyddiannus. Maent yn datblygu eu dulliau addysgu yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol iawn. Mae ymarferwyr yn feistrolgar wrth gynllunio ar gyfer profiadau chwarae a dysgu er mwyn datblygu holl fedrau'r plant yn gadarn. Maent yn cydweithio'n hynod effeithiol i feithrin ymdeimlad positif, cartrefol o fewn lleoliad sy'n annog plant i fod yn annibynnol ac yn ymholgar.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth aruchel o sut mae'r plant yn dysgu drwy chwarae ac archwilio. Maent yn cynllunio ardaloedd yn effeithiol iawn er mwyn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau pwrpasol ac ysgogol i'r plant yn yr ardaloedd tu mewn a thu allan ac yn gwneud defnydd gwych ohonynt.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y plant yn bwrpasol. Maent yn hyrwyddo cynllunio ymatebol yn grefftus mewn ffordd hynod fedrus sy'n annog y plant i fod yn chwilfrydig. Er enghraifft, maent yn mentro tu allan i archwilio'r amgylchedd ar fore oer rhewllyd o eira. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddatblygu medrau rhifedd effeithiol drwy amrywiaeth o gyfleoedd pwrpasol, megis cyfrif sawl cwpan o flawd neu ddŵr wrth wneud toes, neu gyfri i dri wrth arllwys dŵr eu hunain pan maent yn sychedig. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo medrau datrys problemau a chyfathrebu'r plant yn arbennig. Maent yn annog y plant i holi ac ateb cwestiynau ac yn gwneud sylwadau sy'n eu hybu i feddwl am yr hyn y maent yn ei wneud. Mae ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn glir gan ddefnyddio geirfa a phatrymau cyfarwydd wrth sgwrsio'n naturiol â'r plant.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn fentrus ac yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus drwy gynllunio profiadau o ansawdd uchel iawn. Mae ystod o brofiadau dysgu a chwarae tu mewn a thu allan yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y plant. Mae ymarferwyr yn chwarae ochr yn ochr â'r plant yn hynod effeithiol er mwyn cefnogi'r dysgu yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn rasio i lawr y llethr ar gefn beic cyd-bwyso er mwyn annog y plant i wneud hynny hefyd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn rhagorol. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n grefftus er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn gynhwysfawr ac yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn, er enghraifft trwy arddangos lluniau o deuluoedd y plant yn y lolfa. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda iawn gan godi ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau arwyddocaol, megis Dydd y Cofio. Maent yn addysgu'r plant am y

gwahaniaeth rhwng da a drwg a phwysigrwydd parchu eraill. Mae ymarferwyr yn cefnogi'r plant yn effeithiol iawn i fod yn garedig â'i gilydd drwy drafod yn dawel a modelu ymddygiad cadarnhaol.

Mae dulliau addysgu'r ymarferwyr yn llwyddo i ysgogi'r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau yn gadarn. Maent yn cynnal arsylwadau helaeth yn gyson gan ganolbwyntio ar gynnydd plant. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol iawn i ymateb i anghenion y plant ac i symud y dysgu ymlaen. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth am y plant gyda'i gilydd yn fedrus gan addasu'r ddarpariaeth, yn ôl yr angen. Maent yn adfyfyrio'n hynod effeithiol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ateb gofynion y plant bob tro.

Mae gan ymarferwyr ymwybyddiaeth ragorol o bwysigrwydd datblygiad plentyn, ac maent yn defnyddio hyn yn gadarnhaol i ymateb i'w hanghenion unigol. Maent yn cydweithio'n wych â'i gilydd i sicrhau bod cynlluniau a gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae ansawdd yr amgylchedd yn hynod gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd yn ystyriol i sicrhau ardaloedd diddorol ac ysgogol, sy'n darparu profiadau arbennig i'r plant. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael yn yr ardaloedd chwarae. Mae'r ardaloedd yn cynnwys eitemau pwrpasol sy'n cyfoethogi'r chwarae, er enghraifft padell ffrio ac offer coginio yn y gegin fwd ynghyd ag eitemau bywyd go iawn yn yr ardaloedd chwarae rôl, megis hetiau caled a theclynnau. Mae amrywiaeth eang o adnoddau sydd o ansawdd da, gan gynnwys dail, offer pren, basgedi sy'n cynnwys rhifolion, llyfrau a theganau meddal yr Hydref. Maent yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r ardaloedd chwarae a'r offer yn cael eu glanhau'n rheolaidd ac mae'r adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da.

Mae dewis o adnoddau ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ac o ddiwylliannau gwahanol, gan gynnwys taflenni rhifau mewn ieithoedd gwahanol, llyfrau, doliau ac offer chwarae rôl megis bwydydd a llestri. Mae hyn yn helpu'r plant i ddatblygu'n ddinasyddion goddefgar ac i ddeall bod gwahaniaethau yn perthyn i'r byd o'u cwmpas. Maent yn cynnig cyfleoedd da i blant ddefnyddio'r toiled a'r basnau golchi dwylo yn annibynnol.

Mae'r safle yn ddiogel ac mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y drysau ar glo a bod cofnod o bob ymwelydd. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg sylfaenol ar gyfer yr adeilad, yr ardal allanol ac ar gyfer ambell  weithgaredd. Serch hynny, nid ydynt yn cynnwys pob ardal a gweithgaredd yn yr asesiadau risg. Mae'r ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn ofalus mewn amgylchedd diogel. Maent yn cynnal ymarferion tân er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau i'w dilyn pe bai argyfwng.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar. Ceir ffotograffau o'r plant a'u teuluoedd yn y gornel chwarae rôl. Mae ffotograffau o blant unigol uwchben pegiau yn y cyntedd ac ar arddangosfeydd yn dangos y plant yn ymgymryd â gweithgareddau amrywiol. Mae hyn yn cyfrannu at yr ymdeimlad o berthyn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod strategaethau arwain y lleoliad yn gadarn ac maent yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Maent yn gosod disgwyliadau uchel yn gyson dda drwy gefnogi a herio pawb i wneud eu gorau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweledigaeth y lleoliad yn cael ei gwireddu drwy gynllunio a rheolaeth staff drylwyr. Maent yn sicrhau bod trefniadau dyddiol yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau. Er enghraifft, mae arweinwyr yn cynnwys ymarferwyr yn y broses o gynllunio profiadau dysgu a chwarae ar gyfer y plant. Mae hyn yn cynnal lles a hyder ymarferwyr yn llwyddiannus ac mae ganddynt fwy o berchnogaeth dros eu gwaith.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu'r materion y maent yn dymuno'u gwella ac yn gweithredu arnynt yn gyflym ac yn effeithiol. Maent yn creu cysylltiadau buddiol ag ystod o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Mae ganddynt gysylltiadau cadarn ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ac maent yn cydweithio'n effeithiol â hi i ddatblygu a mireinio'r ddarpariaeth er budd y plant. Maent yn mynd i'r afael â phryderon yn effeithiol, gan atgyfeirio'n bwrpasol at yr asiantaethau cywir er mwyn cynorthwyo unigolion. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu cysylltiadau gwerthfawr â'r gymuned ehangach er mwyn meithrin ymdeimlad o berthyn yn y plant. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan yng Ngŵyl Coed Nadolig y pentref.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol ac mae'r gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau'n briodol. Mae'r broses rheoli perfformiad wedi'i sefydlu'n bwrpasol, a cheir cofnodion cynhwysfawr gyda thargedau'r ymarferwyr wedi'u nodi'n glir. Mae gan arweinwyr drefniadau cadarn ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant, sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i fyfyrio ar gynnydd y plant a chryfderau'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd i'w gwella o ran addysg a gofal y plant.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r gyllideb a grantiau yn synhwyrol i flaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad. Er enghraifft, maent wedi buddsoddi mewn adnoddau amrywiol er mwyn cyfoethogi profiadau'r plant yn yr ardaloedd tu allan. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd ystyrlon â chyd-destun go iawn i blant ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau.

Mae gan yr arweinwyr a'r ymarferwyr berthynas gryf â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n gyson â nhw er mwyn medru gweithio'n effeithiol i wella lles a dysgu'r plant o ddydd i ddydd. Maent yn cwrdd â nhw'n dymhorol er mwyn adrodd ar gynnydd a datblygiad cyfredol y plant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o apiau a chyfryngau cymdeithasol mewn modd pwrpasol i olrhain cynnydd a chyfathrebu yn fedrus. Gwneir defnydd da o'r rhain i hysbysu rhieni a gofalwyr o negeseuon pwysig, digwyddiadau ac i adrodd yn unigol ar gynnydd, datblygiad a gofal plant drwy luniau. Yn ogystal, maent yn rhannu llyfrynnau o waith y plant i ddangos cynnydd unigolion yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae prif bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad wedi'u hysbysu'n glir i rieni a gofalwyr wrth y brif fynedfa.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2025